



Yn dilyn carreg filltir cyhoeddi copi papur o fersiwn anffurfiol y Beibl, Beibl.net, yn 2015, mae'r Beibl Gymdeithas, y Cyngor Ysgolion Sul, a Gobaith i Gymru yn cydweithio yn 2016, o dan yr enw 'BeiblByw' i annog eglwysi i hybu darllen y Beibl ymhlith eu pobl eu hunain ac yn eu hardaloedd.

'Darganfod – Darllen – Deall'

## BEIBL BYW

Yw'r arwyddair ar gyfer gweithgareddau'r flwyddyn, a gobeithio y cawn ni gyfle yn y Cylch i drefnu gweithgareddau arbennig gyda'n gilydd ar y thema yma eleni, inni hefyd fod yn rhan o'r darganfod, y darllen a'r deall. I ddechrau, chi sy a ffonau smart gennych, beth am ddilyn Beibl.net ar Twitter a Facebook, i dderbyn adnod y dydd, i ysgogi meddwl. Cofiwch hefyd am yr Astudiaeth, ac am y Cylch Darllen sy gennym ni eisoes. Os oes diddordeb gan rywun yn y ddau hyn, ond eich bod chi'n cael yr amserau'n anodd, os gwelwch yn dda, rhowch wybod i mi.

### Astudiaeth Feiblaidd

Dewch i rannu yn yr astudiaethau Beiblaidd ar aelwyd y Gilfach drwy wahoddiad Ann a Densil, o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan. Mae'r cyfarfodydd hyn am 7.00 yr hwyr.

9fed o Chwefror: Marc 7: 30-42; 8:1-10, 14-21; 9:30-32; 10:32-34

16eg o Chwefror: Marc 8: 27-38; 9: 1-13

1af o Fawrth: Marc 9:33-7, 38-50; 10:1-12

15fed o Fawrth: Marc 10:13-16, 35-45

22ain o Fawrth: Marc 11: 1-11, 12-14, 15-19, 20-5

(A sylwadau o *Meeting God in Mark*, gan Rowan Williams)

### Croeso i bawb!

### Cylch Darllen


Bydd y Cylch Darllen yn cwrdd i barhau thema 'disgyblion Iesu', am 10.30 yn festri Noddfa ar y dyddiadau hyn:

10fed o Chwefror a'r testun fydd Efengyl Ioan, pennod 6, adnodau 1 - 13 (Philip)

9fed o Fawrth, pan fyddwn yn edrych ar Efengyl Mathew, pennod 20, adnodau 20 - 28 (Ioan).

Croeso i bawb, i ddarllen, i drafod, uwchben paned.

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn 16 Mawrth, Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net



# Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Chwefror a Mawrth 2016

## Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

### 7 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

### 14 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Mr Stan Evans
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

### 21 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Maria Evans
Noddfa	10.00 y bore	Oedfa unedig i Fethel, Caersalem a Noddfa o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan

### 28 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Seion	1.30 y prynhawn	Oedfa unedig i Seion a Brynhafod o dan ofal Mrs Dwynwen Teifi
Noddfa	gweler trosodd	

drosodd/...

<b>Trefn y Suliau (parhad)</b>		
<b>28 Chwefror (parhad)</b>		
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa deulu unedig i Fethel, Caersalem a Noddfa o dan ofal Mr Nigel Davies swyddog ieuenctid MIC
<b>6 Mawrth</b>		
Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun
<b>13 Mawrth</b>		
Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun
<b>20 Mawrth - Sul y Blodau</b>		
Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
<b>27 Mawrth - Sul y Pasg</b>		
Aberduar	9.30 y bore	Unedig i'r Cylch
Bethel	11.00 y bore	Unedig i'r Cylch
Rhaghysbys:		
<b>3 Ebrill</b>		
Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	6.00 yr hwyr	Cymun

**Apêl Cymorth Cristnogol ar gyfer Undeb Bedyddwyr Cymru**  
 Mae apêl newydd er mwyn cefnogi gofal mamau yn Ghana, lle mae 20 gwaith mwy o wragedd yn marw yn dilyn genedigaeth o'u cymharu â phrofiad merched Cymru. Os llwyddwn i gasglu £40,000 fe fydd £500,000 yn cael ei ychwanegu ato gan y llywodraeth. Rhaid inni drio!

**Oedfa Weddi Chwioridd y Byd**  
 Yn Noddfa ar y 4ydd o Fawrth, am 2 o'r gloch - croeso i bawb.

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r *Deufts*.

**Ysgol Sul Noddfa**

Braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd i Noddfa ar gyfer Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul. Roedd y capel wedi ei addurno yn hardd gan Llinos a theimlwyd naws hyfryd yr Wyl wrth deithio i Fethlehem yng nghwmni'r plant, y bobl ifanc a'r Mamau - 26 ohonynt i gyd. Roedd cymeriadau drama'r geni yn serennu ac yn amlwg wrth eu bodd yn dathlu pen-blwydd Iesu a'r cyfuniad o wisgoedd lliwgar tradodiadol a chyfoes yn ychwanegu at fwynhad y gynulleidfa. Hefyd cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan ddarlenniadau o'r Beibl, gweddïau, unawdau, adroddiadau a grwpiau canu amrywiol.

Talwyd ymweliad gan Santa (diolch i David Evans) a bu'n brysur yn dosbarthu llond sach o anrhegion. Diolch hefyd i Alun ac Eifion am eu rhoddion caredig o ffrwythau eleni eto. I gloi prynhawn bendithiol a phleserus iawn mwynhawyd te parti ardderchog wedi ei baratoi gan y rhieni dan gyfarwyddyd Llinos.

Bu aelodau'r Ysgol Sul yn diddanu'r Henoed yng Nghartref Hafandeg ar 8 Ionawr. Cyflwynwyd amrywiaeth o eitemau safonol ar lafar ac ar gân a'r preswylwyr wrth eu bodd ac yn werthfawrogol iawn o gyfraniadau rhagorol y plant a'r bobl ifanc. Cyn troi tuag adre cafwyd cyfle i gymdeithasu tra'n mwynhau paned a danteithion ysgafn.

Bu 2015 yn flwyddyn lewyrchus yn hanes yr Ysgol Sul gyda chynnydd yn yr aelodaeth ac mae'n dda gweld nifer o rieni newydd yn barod i gynorthwyo. Felly edrychwn ymlaen gyda gobaith i'r flwyddyn newydd.

Mae'r tymor newydd wedi dechrau – a chroeso mawr i Ifan Thomas sy wedi ymuno. Mae'r Ysgol Sul nawr yn paratoi ar gyfer Oedfa'r Pasg, a bydd y trefniadau yn cael eu cyhoeddi ar ôl iddyn nhw gael eu cwblhau.  
*(Diolch i Janet am yr adroddiad.)*

**Llongyfarchiadau**  
 Llongyfarchiadau mawr i'r Parchg Athro Densil Morgan ar ddod yn Olygydd *Y Traethodydd*. Mae ei rifyn cyntaf cynhwysfawr (fel go-lygydd) allan yn awr.

**Oedfa Deulu yn Noddfa**  
 Bydd yr Oedfa Deulu yng nghwmni Nigel Davies am 5 ar 28 Chwefror yn addas i blant ac oedolion gan gynnwys gweithdy i'r plant lleiaf. Dewch yn llw!

**Blwyddyn Gap** - meddwl beth i'w wneud y flwyddyn nesaf? Mae cynllun newydd Blwyddyn Gap gan Undeb Bedyddwyr Cymru i Gristnogion ifainc sy'n aelodau yn ein heglwysi: sbŵch ar y wefan ar:  
<http://www.buw.org.uk/blwyddyn-gap/>